



Caru Gwenyn
Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Astudiaethau achos

Mynwent Eglwys y Santes Fair, Y Waun

Mae gwirfoddolwyr mynwent Eglwys y Santes Fair (www.stmaryschirk.org.uk) wedi dangos sut mae troi mynwent yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt.

Ers 2009, maent wedi bod yn gwella amgylchedd naturiol a nodweddion hanesyddol ym mynwent yr Eglwys, a hynny wrth sicrhau fod y lleoliad yn parhau i fod yn daclus ac yn ddeniadol

Yn 2019, ymunon nhw â'r cynllun Caru Gwenyn gan ymroi i helpu pryfed peillio.



Thema 1 – Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n addas i bryfed peillio



Defnyddiwyd y Rhestr Planhigion Awgrymedig a geir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio er mwyn creu ardaloedd o flodau ar gyfer bywyd gwyllt. Yn y dyfodol, eu bwriad yw datblygu ac ehangu'r meysydd hyn gan roi diweddariadau ar eu cynnydd trwy ychwanegu lluniau ar eu gwefan.

Mae ganddynt bum dysgl ddŵr o amgylch y fynwent, a chânt eu llenwi â dŵr glaw yn ystod cyfnodau sych. Mae hyn yn gymorth i bryfed peillio, maent yn defnyddio ffynonellau dŵr at lawer o ddibenion.

Maent wedi sefydlu cynllun lladd gwair sy'n sicrhau fod ardaloedd o laswellt ddim yn cael eu torri. Mae hyn yn caniatau i'r planhigion flodeuo a darparu ffynhonnell fwyd i bryfed peillio.

Thema 2 – Llety Pum Seren – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw

Mae'r ardaloedd o laswellt hir yn rhoi lle i bryfed peillio gwblhau eu cylochoedd bywyd, lle caiff larfa gloŷnmod byw, gwyfynod, a chwilod gyfle i aeddfedu.

Maent wedi adeiladu 'gwesty trychfilod' yn ogystal â hongian boncyffion gwenyn.

Thema 3 – Rhyddid Rhag Plaladdwyr – osgoi cemegau sy'n niweidio pryfed peillio

Nid ydynt yn defnyddio plaladdwyr.

Thema 4 – Hwyl – cynnwys yr holl gymuned

Mae gwirfoddolwyr y fynwent yn cydweithio ag athrawon, arbenigwyr cymwys, a rhieni er mwyn cynnal digwyddiadau gyda'r ysgol leol, fel yr helfa chwilod/trychfilod. Yn ystod yr helfa, defnyddir rhwydi ysgubo er mwyn dal pryfed, gan edrych o dan gerrig a darnau o garped ac ati. Wedyn, cynhelir sesiwn i adnabod y pryfed, i'w trafod, ac i dynnu lluniau ohonynt.

Maen nhw wedi cynnal digwyddiad Bedwen Fai gydag ysgol leol ar gyfer plant a theluoedd yr ardal. Fel rhan o'r digwyddiad hwn, cafwyd cwis helfa bywyd gwyllt a fu'n boblogaidd iawn gan lawer o blant.